# Ffurflen Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb:

## Adroddiad Cydraddoldeb 2019/20 a’r camau 2020/21

Gweler Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer canllawiau manwl am sut i gwblhau'r ffurflen hon.

## Adran 1: Pwrpas a chwmpas y polisi

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Adroddiad Cydraddoldeb 2019/20 a chamau gweithredu 2020/21 |
| **Newydd neu gyfredol** | Adroddiad a chynllun gweithredu o dan Gynllun Cydraddoldeb cyfredol 2019-2022 |
| **Perchennog** | Ania Rolewska |
| **Swyddog(ion) sy'n cynnal yr AEG** | Ania Rolewska<br>Grŵp y Cynllun Cydraddoldeb |
| **Beth mae'r polisi yn gobeithio ei gyflawni?** | Nod y cyhoeddiad hwn yw adrodd ar flwyddyn gyntaf y broses o weithredu Cynllun Cydraddoldeb 2019-22 OGCC a nodi'r camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf |
| **Sut mae'r polisi yn berthnasol i feysydd gwaith eraill?** | Adroddiad o dan Gynllun Cydraddoldeb cyfredol 2019-2022 |
| **Pwy sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y polisi hwn?** | • Defnyddwyr gwasanaeth<br>• Staff<br>• Ymgeiswyr am swyddi<br>• Y cyhoedd |

## Adran 2: Asesu perthnasedd a chymesuredd

Cofiwch:

- i asesu perthnasedd, mae'n rhaid i chi ystyried tystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r holl nodweddion Cydraddoldeb
- rhaid i chi gofnodi pob tystiolaeth sy'n cael ei ystyried yn adran 4 o'r ffurflen

| Cwestiwn | Nac ydy / nac oes | Ydy / oes | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| A yw'r polisi yn berthnasol i amcanion cydraddoldeb a'r | ☐ | ☒ | Ydy – hwn yw'r adroddiad ar weithredu'r amcanion |

| Cwestiwn | Nac ydy / nac oes | Ydy / oes | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| camau gweithredu a nodwyd gan OGCC? | | | |
| A yw'r polisi yn ymwneud â swyddogaethau y mae tystiolaeth, neu weithgareddau blaenorol wedi'u nodi fel rhai sy'n bwysig i nodweddion penodol? | ☐ | ☐ | Mae Cynllun Cydraddoldeb OGCC yn berthnasol i’r holl nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, roedd camau gweithredu penodol yn 2019/20 yn rhoi pwyslais arbennig ar anabledd, oedran a rhywedd o ran hygyrchedd ein gwasanaeth a’n cynhwysiant fel cyflogwr. Mae camau gweithredu penodol yn 2020/21 wedi ychwanegu pwyslais hefyd ar ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol. |
| A yw’r polisi yn berthnasol i faes lle mae anghydraddoldebau hysbys, neu botensial sylweddol i leihau anghydraddoldebau neu wella canlyniadau? | ☐ | ☒ | Un o nodau cyffredinol allweddol y Cynllun Cydraddoldeb yw cynorthwyo OGCC i gyflawni’r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol ac sydd â’r potensial i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau yn achos pob nodwedd warchodedig, anfantais economaidd-gymdeithasol a’r Gymraeg.<br>Mae adroddiad a chamau gweithredu 2019/20 yn dilyn strwythur y Cynllun Cydraddoldeb, sy’n ymdrech i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau mewn tri phrif faes:<br>• Hygyrchedd ac ymatebolrwydd ein gwasanaeth (Nod Corfforaethol 1)<br>• Hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol fel rhan o wella gwasanaethau cyhoeddus (Nod Corfforaethol 2)<br>• Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn OGCC fel gweithle (Nod Corfforaethol 3) |
| A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai’r polisi effeithio ar: | | | |
| • driniaeth deg o bobl â nodweddion penodol | ☐ | ☒ | Oes – mae’n ymdrech i sicrhau ein bod yn trin ein holl achwynwyr, staff ac ymgeiswyr am swyddi’n gyfartal. Mae pwyslais penodol y camau gweithredu yn 2019/20 yn hyn o beth wedi bod ar anabledd, oedran a rhywedd; ac yn 2020/21 ar ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol hefyd. |

## Ffurflen Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

| Cwestiwn | Nac ydy / nac oes | Ydy / oes | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| • bodloni anghenion pobl â nodweddion cydraddoldeb (gan gynnwys drwy ddarparu addasiadau rhesymol) | ☐ | ☒ | Oes – mae’r camau gweithredu yn 2019/20 a 2020/211 yn cynnwys camau rydym wedi’u cymryd hyd yma ac rydym yn bwriadu eu cymryd i wella hygyrchedd ein gwasanaeth ac i wneud addasiadau rhesymol. |
| • cyfranogiad pobl â nodweddion cydraddoldeb | ☐ | ☒ | Oes – roedd paratoi Adroddiad 2019/20 a chamau gweithredu 2020/21 yn cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu mewnol ac allanol. Hefyd, mae gweithredu’r camau gweithredu hyd yma wedi arwain at ddatblygu cysylltiadau newydd â sefydliadau sy’n cynrychioli grwpiau gwarchodedig (e.e. Age Cymru) a disgwylir i hyn barhau yn 2020/21. |
| • cysylltiadau cymunedol rhwng grwpiau cydraddoldeb gwahanol | ☐ | ☒ | Oes – mae’r Cynllun Cydraddoldeb a chamau gweithredu 2019/20 a 2020/21 yn ymdrech i wneud OGCC yn weithle mwy cynhwysol ac amrywiol. |
| A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai’r polisi hwn ddylanwadu ar anfantais oherwydd statws economaidd-gymdeithasol pobl? | ☐ | ☒ | Oes – mae’r Cynllun Cydraddoldeb yn dangos ein hymrwymiad i weithio o fewn ysbryd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ac yn 2019/20 rydym wedi cymryd camau i wella sut y gallwn gyflawni’r ymrwymiad hwn (e.e. ychwanegu cwestiynau ar ddyletswyddau gofalu wrth fonitro cydraddoldeb staff). |
| A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai’r polisi hwn effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg neu’n effeithio ar sut mae OGCC yn trin y Gymraeg? | ☐ | ☒ | Oes – mae’r Cynllun Cydraddoldeb yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi’r Gymraeg. Mae camau gweithredu ar gyfer 2019/20 a 2020/21 yn cynnwys rhai camau a fydd yn gwella sut mae’r Gymraeg yn cael ei hystyried fel rhan o’n prosesau (e.e. fel rhan o Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb) |

Os ydych yn ateb ‘ydy/oes’ i unrhyw un o’r cwestiynau hyn, ewch i adran 3.

Os bernir nad yw polisi yn berthnasol ar gyfer cynnal AEG llawn, ewch i adran 5.

## Adran 3: Asesiad Llawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb

Cofiwch:

- yn ystod y cam hwn, mae’n rhaid i chi ystyried unrhyw angen i gasglu tystiolaeth bellach - gan gynnwys drwy ymgysylltu â grwpiau a allai gael eu heffeithio gan y polisi;
- mae’n rhaid i chi gofnodi’r holl dystiolaeth sy’n llywio’r cam hwn yn adran 4 o’r

# Ffurflen Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

| Nodwedd | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | | Dim yn berthnasol | Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd | Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol/gwneud y mwyaf o effaith bositif | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | U | C | I | U | C | I | | | | U | C | I | U | C | I |
| Agweddau cyffredinol | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☒ | Mae’r rhan fwyaf o gamau gweithredu 2020/21 yn rhai trawsbynciol a disgwylir iddynt gael effaith bositif ar y cyfan ar hygyrchedd ac ymatebolrwydd ein gwasanaeth; sut yr ydym yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol fel rhan o wella gwasanaethau cyhoeddus; a sut yr ydym yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn OGCC fel gweithle.<br><br>Nid yw camau gweithredu 2019/20 yn cynnwys camau penodol yn achos yr holl grwpiau gwarchodedig. Mae hyn oherwydd yr angen i flaenoriaethu meysydd penodol lle mae fwyaf o angen gweithredu. | Bydd yr angen i nodi camau gweithredu yn achos y grwpiau gwarchodedig sydd heb eu cynnwys yng nghamau gweithredu 2020/21 yn cael ei ail-werthuso’r flwyddyn nesaf. | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Oedran | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | Mae pobl o dan 65 oed yn parhau i gael eu tangynrychioli ymhlith ein hachwynwyr. Mae camau gweithredu yn 2020/21 yn cynnwys ymrwymiadau i:<br>• lansio strategaeth allgymorth i hyrwyddo cwynion llafar<br>• cynyddu gwelededd gwahanol fformatau i gyflwyno cwynion (heblaw am y ffurflen gwyno ar-lein) | | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Anabledd | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | Mae pobl anabl wedi’u tangynrychioli ymhlith ein gweithlu a’n hymgeiswyr am swyddi. Mae camau gweithredu yn 2020/21 yn cynnwys ymrwymiadau i:<br>• ymgymryd â chamau gweithredu mewn cysylltiad â recriwtio o dan y cynllun Hyderus o ran Anabledd | | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| Nodwedd | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | | Dim yn berthnasol | Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd | Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol/gwneud y mwyaf o effaith bositif | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | U | C | I | U | C | I | | | | U | C | I | U | C | I |
| | | | | | | | | • gwella sut yr ydym yn cofnodi ceisiadau am addasiadau rhesymol gan achwynwyr ac ymgeiswyr am swyddi<br>• tynnu sylw'n well at yr opsiwn i ofyn am addasiadau rhesymol<br>• lansio strategaeth allgymorth i hyrwyddo cwynion llafar<br>• hyfforddi Eiriolydd Awtistiaeth i gynnig cyngor i staff a chydweithwyr gwaith achos<br><br>Bydd yr Adroddiad a'r camau gweithredu ar gael fel Crynodeb Gweithredol a fersiwn Hawdd ei Ddeall. | | | | | | | |
| Rhywedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | Er bod gan fenywod gynrychiolaeth dda ymhlith ein gweithlu ac ymgeiswyr am swyddi, mae'r blwch cyflogau rhwng y rhywiau'n parhau yn uchel (11% canolrif a 19% cymedr). Mae camau gweithredu yn 2020/21 yn cynnwys ymrwymiadau i:<br><br>• gweithredu argymhellion Chwarae Teg, i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn OGCC<br>• cwmpasu'r galw am gyrsiau rheoli a datblygu | Awgrymodd yr ymgynghoriadau y gellid cryfhau ein camau gweithredu 2020/21 yn achos ethnigrwydd fel a ganlyn<br><br>• ychwanegu ymrwymiad pendant i adolygu ein polisi gweithio'n hyblyg | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |
| Ailbennu rhywedd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | Nid yw'r Adroddiad yn nodi dim camau gweithredu penodol o ran y gymuned drawsryweddol. Mae hyn o ganlyniad i ddata cyffredinol annigonol ar faint y boblogaeth drawsryweddol yng Nghymru, ond hefyd am fod cyfradd uchel yn dewis peidio ag ymateb i gwestiynau monitro cydraddoldeb am hunaniaeth drawsryweddol. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y camau gweithredu trawsbynciol ar gyfer 2020/21 hefyd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n disgrifio eu hunain fel trawsryweddol. | Rhaid ailedrych ar yr effaith ar y nodwedd warchodedig hon yn 2021/22 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |

# Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| Nodwedd | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | | Dim yn berthnasol | Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd | Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol/gwneud y mwyaf o effaith bositif | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | U | C | I | U | C | I | | | | U | C | I | U | C | I |
| Priodas a phartneriaeth sifil | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | Nid yw'r Adroddiad yn nodi dim camau gweithredu penodol yn achos statws priodasol pobl, gan nad oedd ein gwaith monitro cydraddoldeb yn dangos tangynrychiolaeth nac anghydraddoldebau yn achos y nodwedd hon. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y camau gweithredu trawsbynciol ar gyfer 2020/21 yn cael effaith bositif ar bobl o wahanol statws priodasol. | | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | Disgwylir y bydd y camau gweithredu trawsbynciol ar gyfer 2020/21 yn cael effaith bositif ar bobl sy'n feichiog, ar absenoldeb rhiant neu sy'n mabwysiadu. | | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |
| Hil | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | Mae cynrychiolaeth cymunedau ethnig amrywiol yn parhau'n isel ymhlith ein hachwynwyr, staff ac ymgeiswyr am swyddi. Mae camau gweithredu yn 2020/21 yn cynnwys ymrwymiadau i:<br>• cynnal grwpiau ffocws gyda chymunedau ymfudwyr i wneud ein gwasanaeth yn fwy gweladwy<br>• gweithio â sefydliadau sy'n ymgysylltu â chymunedau ymfudwyr i wneud ein gwasanaeth yn fwy gweladwy<br>• cyflwyno hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod i staff gwaith achos, yn ddibynnol ar y galw<br>• ymuno â Buddsoddi mewn Ethnigrwydd neu gynllun ardystio cymharol arall<br>• rhannu hysbysebion swyddi gwag yn well â sefydliadau BAME yng Nghymru | Awgrymodd yr ymgynghoriadau y gellid cryfhau ein camau gweithredu 2020/21 yn achos ethnigrwydd fel a ganlyn:<br>• cynnal grŵp ffocws gyda phobl BAME i gofnodi'r farn ar hygyrchedd ein gwasanaeth<br>• cynnwys ymrwymiad i sicrhau cynrychiolaeth BAME ar Banel Cynghori OGCC / ARAC<br>• pwysleisio cyd-destun cyhoeddi'r Adroddiad (protestiadau Black Lives Matter)<br>• ystyried cyflwyno hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod i'r holl staff | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ |

# Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| Nodwedd | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | | Dim yn berthnasol | Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd | Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol/gwneud y mwyaf o effaith bositif | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | U | C | I | U | C | I | | | | U | C | I | U | C | I |
| Crefydd neu gred | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | Nid yw'r Adroddiad yn nodi camau gweithredu penodol yn achos crefydd pobl. Rydym wedi gweld peth tangynrychiolaeth ymhlith pobl sy'n Gristnogion ymhlith achwynwyr a staff.<br><br>Fodd bynnag, disgwylir y bydd y camau gweithredu trawsbynciol ar gyfer 2020/21 yn cael effaith bositif ar bobl o wahanol grefyddau a chredoau. | Rhaid ailedrych ar yr effaith ar y nodwedd warchodedig hon yn 2021/22 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |
| Cyfeiriadedd rhywiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | Nid yw'r Adroddiad yn nodi camau gweithredu penodol yn achos cyfeiriadedd rhywiol. Roedd cyfran y bobl sy'n cyfrif eu hunain fel LHD+ ymhlith ein hachwynwyr, staff ac ymgeiswyr am swyddi yn debyg i'r amcangyfrifon o faint y boblogaeth hon yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd yn is na rhai amcangyfrifon uwch, ac nid oedd cynrychiolaeth LHD+ ymhlith ymgeiswyr llwyddiannus.<br><br>Disgwylir y bydd y camau gweithredu trawsbynciol ar gyfer 2020/21 yn cael effaith bositif ar bobl o wahanol gyfeiriadedd rhywiol. | Rhaid ailedrych ar yr effaith ar y nodwedd warchodedig hon yn 2021/22 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |
| Statws economaidd-gymdeithasol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | ☐ | Mae'r camau gweithredu ar gyfer 2020/21 yn cynnwys diwygio'r ffurflen cydraddoldeb achwynwyr er mwyn cofnodi data ar ddyletswyddau gofal ac addysg yn well.<br><br>Disgwylir y bydd y camau gweithredu trawsbynciol ar gyfer 2020/21 yn cael effaith bositif ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |
| Y Gymraeg | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ | Nid yw'r Adroddiad yn nodi camau gweithredu penodol yn achos y Gymraeg. Mae hyn yn wendid, oherwydd er bod y data sydd ar gael yn dangos bod cynrychiolaeth gymharol dda o | Mae hwn yn faes y bydd yn rhaid edrych arno eto cyn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ |

# Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| Nodwedd | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | | Dim yn berthnasol | Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd | Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol/gwneud y mwyaf o effaith bositif | Effaith negyddol | | | Effaith bositif | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | U | C | I | U | C | I | | | | U | C | I | U | C | I |
| | | | | | | | | siaradwyr Cymraeg ymhlith staff, mae'r grŵp hwn wedi'i dangynrychioli ymhlith ymgeiswyr am swyddi ac achwynwyr.<br><br>Fodd bynnag, mae lle i gredu y gellir priodoli hyn o leiaf yn rhannol i fformat y cwestiwn (sy'n holi am 'brif iaith' yn hytrach na'r gallu i ddefnyddio Cymraeg). Mae'r camau gweithredu ar gyfer 2020/21 yn cynnwys diwygio'r ffurflen cydraddoldeb achwynwyr i gasglu data gwell yn y maes hwn.<br><br>Disgwylir y bydd y camau gweithredu trawsbynciol ar gyfer 2020/21 yn cael effaith bositif ar siaradwyr Cymraeg.<br><br>Bydd yr Adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ym mhob un o'r tri fformat (adroddiad llawn, crynodeb gweithredol a Hawdd ei Ddeall). | gynted ag y bydd data gwell ar gael. | | | | | | |

## Adran 4: Cofnod o dystiolaeth ac ymgysylltu

| Ystyried y dystiolaeth gyfredol | |
|---|---|
| **Sgrinio cydraddoldeb** | n/a |
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | • Dogfen Gyfeirio Cydraddoldeb OGCC<br>• Proffil cydraddoldeb staff 2019/20 a 2018/19<br>• Proffil cydraddoldeb achwynwyr 2019/20 a 2018/19<br>• Proffil cydraddoldeb ymgeiswyr am swyddi 2019/20 a 2018/19 |
| **Tystiolaeth ychwanegol a gasglwyd** | |
| **Sgrinio cydraddoldeb** | |
| Dull o gasglu tystiolaeth | n/a |
| Cofnod o'r dystiolaeth a gasglwyd | n/a |
| Dyddiad cwblhau | n/a |
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | |
| Dull o gasglu tystiolaeth | **Ymgynghoriad mewnol: staff (1 – 10 Mehefin 2020)** |
| Cofnod o'r dystiolaeth a gasglwyd | Byddem yn croesawu cryfhau'r pwyslais ar gynhwysiant BAME. Egluro'n well er bod rhai grwpiau wedi'u tangynrychioli ymhlith ein hachwynwyr (e.e. pobl dros 65 oed) mae'n bosibl mai'r rheswm yw bod pobl yn y grwpiau hyn yn gofyn i aelodau eraill o'u teulu neu ffrindiau i wneud cwyn inni ar eu rhan. |
| Dyddiad cwblhau | 10 Mehefin 2020 |
| Dull o gasglu tystiolaeth | **Adborth y Tîm Rheoli** |
| Cofnod o'r dystiolaeth a gasglwyd | Cytunwyd i gryfhau'r pwyslais yn yr adroddiad ar ein gwaith i hyrwyddo amrywiaeth ethnig<br>Cytunwyd mewn egwyddor i gynnwys targed ar gyfer cynrychiolaeth BAME ar y Panel Cynghori / ARAC |
| Dyddiad cwblhau | 16 Mehefin 2020 |
| Dull o gasglu tystiolaeth | **Ymgynghoriad allanol: gwahoddiad cyhoeddus am sylwadau (26 Mehefin – 9 Gorffennaf 2020)** |
| Cofnod o'r dystiolaeth a gasglwyd | Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (CLlLC)<br>• Croesawyd yr adroddiad – nodwyd meysydd posibl i gydweithredu: |

| | |
|---|---|
| | ➢ Fforymau rhanddeiliaid CLlLC – cyfleoedd posibl i gymryd rhan yng ngwaith yr Ombwdsmon yn awr ac yn y dyfodol;<br>➢ Deunyddiau hyrwyddo CLlLC – cyfle inni i gyfrannu at ddiweddaru rhai o'ch pecynnau cymorth cyfredol (e.e. Cyfeiriadedd Diwylliannol) neu i ddatblygu rhai newydd; codi ymwybyddiaeth o wahanol fecanweithiau yn y sector cyfiawnder gweinyddol;<br>➢ ein deunyddiau hyrwyddo – efallai y bydd angen rhoi sylw i argaeledd ein deunyddiau hyrwyddo mewn ieithoedd gwahanol;<br>➢ recriwtio – cyfle inni i rannu unrhyw swyddi gwag.<br><br>Chwarae Teg<br><br>• "Mae data yn arf pwerus ac mae'n braf gweld yn y cynllun sut mae'n cael ei ddefnyddio i hybu gwelliannau"<br>• awgrymwyd ffigur GPG wedi'i ddiweddaru<br>• gofynnwyd i'r datganiad agoriadol gyfeirio at Chwarae Teg yma yn ogystal â chyfeiriad at Wobr Arian Cyflogwr Chwarae Teg<br><br>Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru<br>• croesawyd yr adroddiad a'r camau gweithredu a'r pwyslais ar gynhwysiant BAME<br>• roedd yn awyddus i gydweithredu wrth inni weithredu camau gweithredu 2020/21, yn enwedig o ran recriwtio a'r Grŵp Ffocws Cydraddoldeb<br><br>Cyn achwynydd<br>• Rhannodd yr unigolyn eu hadborth ar yr agweddau ar ein gwasanaeth a oedd yn eu tyb hwy'n allgau rhai achwynwyr. Yn benodol, roeddent yn dadlau bod ein disgwyliad y byddai cwyn yn cael ei chyflwyno o fewn 12 mis yn allgau unigolion sydd am gwyno am leoliadau gofal preifat, lle mae'r broses gwyno'n un faith a lle mae'r ymateb yn araf.<br>• Honnwyd hefyd fod gwahaniaethu ar sail oedran a stereoteipio yn gyffredin iawn wrth ddelio â chwynion mewn lleoliadau gofal cymdeithasol ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol pe baem yn dadansoddi proffil ein hachwynwyr yn ôl canlyniad.<br><br>Cymdeithas Cydnabod Llwyddiant Menywod Cymreig Lleiafrifoedd Ethnig<br>• trafodwyd cyfleoedd i gydweithio ar grwpiau ffocws. Pwysleisiodd y dylai grŵp ffocws gael ei gydlynu gan bobl o grwpiau ethnig amrywiol, ac y dylai fod ganddynt sgiliau cyfathrebu da, gan fod hyder yn aml yn rhwystr i'r menywod mae'r Gymdeithas yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio â hwy. Cytunwyd i drafod hwyluso grŵp yn y flwyddyn newydd<br>• roedd yn hapus i gael unrhyw wybodaeth am recriwtio.<br><br>Age Cymru<br>• Rydym yn croesawu sylw yn yr adroddiad o dan Amcan 1.2 i'r pwyntiau a godwyd yn Fforwm Ymgynghori Age Cymru a oedd yn cyfeirio at godi gwelededd y gwasanaeth ac i hysbysebu cyfryngau cyfathrebu sy'n fwy hygyrch i bobl hŷn.<br>• Gyda chyfeiriad at gyfryngau cyfathrebu hoffem bwysleisio nad yw pob person hŷn ar-lein. Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n hygyrch ar-lein ac all-lein. Mae angen i wasanaethau a ddarperir ar-lein fod o safon uchel ac yn hawdd i'w defnyddio, a dylai gwasanaethau all-lein fod o'r un safon ac yn gwbl hygyrch. |
| Dyddiad cwblhau | 9 Gorffennaf 2020 |

## Adran 5: Adroddiad canlyniadau

| | | |
|---|---|---|
| **Cam cwblhau'r AEG** | Sgrinio | ☒ |
| | Asesiad effaith | ☒ |
| **Canlyniad gweithdrefn AEG** | Parhau â'r polisi – dim newidiadau | ☐ |
| | Gwneud newidiadau i'r polisi | ☒ |
| | Peidio â pharhau â'r polisi | ☐ |

**Cynllun gweithredu (ar gyfer AEG llawn yn unig)**
Lle bo angen cymryd camau i liniaru lefel yr effaith negyddol neu i wneud y mwyaf o'r effaith bositif, nodwch:

| **Mater allweddol** | **Camau gweithredu i'w cymryd** | **Swyddog sy'n gyfrifol** | **Dyddiad cwblhau** |
|---|---|---|---|
| 1. Pwyslais ar hil ac ethnigrwydd | Addasu'r rhagair - ychwanegu targed parthed cynrychiolaeth BAME ar ARAC / Panel Cynghori<br>Ychwanegu cam gweithredu ar Grŵp Ffocws BAME Group | AR | 07/07/2020 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2. Yr adran ar y Blwch Cyflog rhwng y Rhywiau | Gofynnodd Chwarae Teg am gynnwys mân bwyntiau o esboniad<br><br>Ychwanegu adolygiad o’r polisi gweithio hyblyg | AR | 07/07/2020 |
| 3. Hyfforddiant i staff gwaith achos (ethnigrwydd) | Ymrwymo i ddarparu hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod i’r holl staff | SC | Angen newid y geiriad – dileu ‘yn ddibynnol ar y galw’ |
| **Monitro (ar gyfer AEG llawn yn unig)** | | | |
| **Amlinellwch drefniadau monitro** | 1. Newidiadau wedi’u rhoi ar waith yn barod yn yr adroddiad a gyflwynwyd i’r Tîm Rheoli<br>2. “<br>3. Dibynnol ar argaeledd adnoddau a hyfforddiant priodol. Os na ellir cadarnhau’r rhain yn gyflym, gall yr Adroddiad gael ei gyhoeddi gyda’r geiriad presennol | | |
| **Nodwch y swyddog sy’n gyfrifol** | 3. Tîm Rheoli (TRh) | | |
| **Anghenion cyhoeddi (ar gyfer AEG llawn yn unig)** | | | |
| A ystyriwyd bod yr effaith yn sylweddol (uchel)? | DO | | |

| | |
|---|---|
| Awdurdodwyd gan y TRh | ☒ |
| Dyddiad | 14/07/2020 |